Cofnodion o Gyfarfod Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo am 7.30 pm ar nos Fercher, 25 Mai 2005

Yn Bresennol: Cyng Mrs Ros Bellamy
Cyng Mrs Fran Murphy
Cyng Ieuan Gwyn
Cyng Roy Davies
Cyng Charlotte Leadbeater
Dirprwy Faer Hugh Towns yn y Gadair
Cyng Richard Wallace
Cyng Pam Steane Price
Clerc June Stait

Ymddiheuriadau: Maer Colin Jenkins, Cyng Sir Ieuan Jones, Cyng Paul Faulkner, Cyng Roy Davies

6504/Mai/05 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

1. Darllenwyd gofnodion y Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth, 19 Ebrill 2005, ac fe gytunwyd eu bod yn gofnod cywir a'u harwyddo. Cynigwyd gan Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan Cyng Ros Bellamy.

2. Darllenwyd gofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar ddydd Llun, 25 Ebrill 2005, ac fe gytunwyd eu bod yn gofnod cywir a'u harwyddo. Cynigwyd gan Cyng Richard Wallace ac eiliwyd gan Cyng Pam Steane Price.

3. Darllenwyd gofnodion y Cyfarfod Cynllunio ac Achosion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 11 Mai 200, ac fe gytunwyd eu bod yn gofnod cywir a'u harwyddo. Cynigwyd gan Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan Cyng Pam Steane Price.

3. Darllenwyd gofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 11 Mai 2005, ac fe gytunwyd eu bod yn gofnod cywir a'u harwyddo. Cynigwyd gan Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan Cyng Charlotte Leadbeater.

6505/Mai/05 Materion a gododd o'r cyfarfod diwethaf:

1. Cynnal a chadw llwybrau troed dros y flwyddyn nesaf:

Trafododd y Cynghorwyr y llwybrau troed sydd o gwmpas y dref ond penderfynwyd i adael y pwnc yn agored tan bod y Swyddog Technegol wedi ei apwyntio, a'i roi'n flaenoriaeth ar ei rhestr waith. Bydd hwn yn cael ei roi ar agenda cyfarfod mis Mehefin.

2. Dyfynbris ar gyfer Syrjeri Goed:

Derbyniwyd ddyfynbris wrth Dyfed Tree Care am waith syrjeri ar y coed ar ddarnau tir y Cyngor: "I dynnu clwstwr o goed ynn, fel nodir yn yr adroddiad. Pren coed i'w dorri i fetr o hyd a darnau pren i'w torri yn fân iawn, a'u gadael. Cost £260.00"
Roedd digon o'r gyllideb a gytunwyd ei wario ar y darnau tir ar gael, felly byddai'n cael ei dderbyn. Cynigwyd gan Cyng am Steane Price, eiliwyd gan Cyng Ros Bellamy.

6506/Mai/ 05 Cyfrif y Maer

1. Mae'r eitem yma yn codi yn dilyn trafferthion yn y gorffennol i esbonio cyfrif y Maer i archwilwyr. Pasiwyd y cynnig i dynnu'r arian dros ben o gyfrif y Maer, a rhoi'r £3250 i mewn. Bydd y Maer yn talu'r holl gostau allan o'r cyfrif hwn, yn cynnwys y swper blynyddol, ac yn anfonebu'r Cyngor am yr eitemau o'r swper sydd yn eu gofal nhw. Bydd hyn yn sicrhau bod anfoneb ar gyfer pob gwariant.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

2. Bydd y llofnodwyr y newid. Bydd enw Cyng D Jones yn cael ei ddileu gan nad yw bellach yn gyn-Faer uniongyrchol, bydd Cyng Colin Jenkins yn cael ei ychwanegu at y rhestr fel Maer, a Cyng Hugh Towns fel Dirprwy Faer, a bydd Cyng Ros Bellamy yn cael ei gadael yno fel cyn-Faer uniongyrchol.

3. Er mwyn cadarnhau, y llofnodwyr ar gyfrif cyfredol y Cyngor yw: Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Ros Bellamy, Cyng Colin Jenkins.

6507/Mai/05 Archwiliad Ariannol

Nododd Cyng Ieuan Gwyn ei fod yn gwneud archwiliadau ariannol bob tri mis, fel sy'n ofynnol, a'i fod yn dosbarthu adroddiad byr ar y canlyniadau. Nid oes unrhyw anghysondebau difrifol, dim ond un neu ddau o'r cofnodion yn awdurdodi gwaith sydd i'w wneud yn hytrach nac awdurdodi taliadau a gofnodwyd, ond newidwyd hyn ac roedd popeth mewn trefn.

6508/Mai/05 Anfoneb i'w dalu

Derbyniwyd anfoneb wrth Y Lloffwr a chymeradwywyd y taliad o £15 ar gyfer yr hysbyseb am staff newydd.

6509/Mai/05 Adroddiad y Maer

Fe wnaeth y Maer Cyng Ros Bellamy roi adroddiad am y digwyddiadau yn arwain at y CCB wrth iddi adael ei swydd. Fe ddychwelodd y llyfr siec gyda chopi o'i chyfrifon ar gyfer lwfans y Maer, a thalebau i'r Clerc.

6510/Mai/05 Prosiect Trreftadaeth

Cyfarfu Cyng Ros Bellamy gyda Menter Bro Dinefwr ynglyn â cheisio codi arian, a bydd cais am £30,000 yn cael ei gyflwyno ar ddiwedd mis Mehefin. Bydd angen i'r Cyngor Tref godi 20% o'r gost. Fe wnaeth Cyng Fran Murphy ddadansoddi'r smotiau a roddwyd ar amrywiol luniau gan aelodau'r gymuned er mwyn dangos ble byddent yn hoffi gweld y paneli gwybodaeth. Bu Cyng Richard Wallace yn ymweld ag amrywiol fusnesau a phobl yn y dref i drafod lleoliadau'r placiau a derbyniodd ymateb cadarnhaol wrth bawb. Bydd taith gerdded yn cael ei threfnu o gwmpas y llwybr arfaethedig, ddydd Gwener am 11.30. Gofynnwyd i amrywiol fudiadau yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, HOWLTA, y ficer ayb i ysgrifennu llythyron cefnogaeth, ac fe wnaeth rhai ddangos diddordeb ym maint y placiau a phaneli. Cynigodd Archaeoleg Cambria drosglwyddo llun o banel ar ffotograff er mwyn gallu ei ddangos i unrhyw un sy'n holi.

6511/Mai/05 Prosiect yr Ardd

Mae'r darn o dir wedi ei garpedi'n dda erbyn hyn – rhoddwyd carpedi dros dir sydd wedi ei drin er mwyn arbed chwin rhag aildyfu. Bydd y Grŵp Gweithredol nesaf yn cwrdd ar 4 Mehefin am 2.00pm. Mae rhai o'r ynn ar y safle wedi adfywio, a bydd y darnau mân o bren yn cael eu rhoi naill ochr er mwyn eu defnyddio eto yn yr ardd. Mae CSC wedi derbyn cyngor gan fod y darn o dir o fewn yr ardal gadwraeth. Cadarnhaodd y Cynghorwyr bod y prosiect yma wedi cael ei ystyried o'r dechrau fel un hir dymor sy'n mynd i ddangos sut gall tir gwastraff gael ei glirio a'i ddefnyddio eto. Gobeithir y byff cerflunydd yn gallu defnyddio'r gwastraff a daflwyd ar y tir dros y 12 mis diwethaf, er mwyn gwneud atyniad diddorol yn yr ardd rhywbryd yn y dyfodol.

6512/Mai/05 Neuadd y Sir

Fe wnaeth Cyng Ros Bellamy a Cyng Ieuan Gwyn gyfarfod gydag Archaeoleg Cambria a cytunwyd y bydd y tymor lês yn cael ei ymestyn i 15 mlynedd. Mae cyfreithiwr y Cyngor Tref wedi derbyn cyfarwyddyd i baratoi'r cytundeb lês. Bydd cais am nawdd ar gyfer y newidiadau i du fewn y neuadd yn cael ei lunio er mwyn ei ystyried gan y Cyngor Sir ar ddiwedd mis Mehefin. Bydd rheolwr prosiect yn cael ei gyflogi. Amcangyfrifir y bydd y gost yn £65,000. Gall y Cyngor Sir gefnogi hyd at £30,000. Felly bydd y Cyngor Tref yn hawlio nawdd y PWLB sydd wedi cael ei drafod, a bydd yn

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

cael ei ad-dalu pan pydd y nawdd ar gael. Bydd angen derbyn cadarnhad os oes angen cyflwyno cais cynllunio.

6513/Mai/05 Materion Staffio
Hysbysebwyd tair swydd a derbyniwyd ceisiadau. Mae rhestr fer wedi ei chreu a bydd y cyfweliadau cyntaf yn cael eu cynnal ar ddydd Mawrth, 31 Mai, a 9 Mehefin.

6514/Mai/05 Plannu Coed ar Stryd y Bont
Caiff yr eitem yma ei thrafod yn y cyfarfod nesaf.

6515/Mai/05 Strategaeth Barcio CSC
Derbyniwyd ddogfen ymgynghorol strategaeth barcio integreiddiedig y Cyngor Sir, a'r dyddiad i ymateb yw 1 Gorffennaf. Penderfynwyd y dylai dau neu dri Cynghorydd fynd â'r ddogfen i'w darllen cyn cwrdd i drafod sut mae'n cydweddu gyda gweledigaeth y Cyngor Tref ar ddatblygiad Llandeilo. Bydd sylwadau yn cael eu casglu erbyn y cyfarfod nesaf. Cytunodd Cyng Pam Steane Price, Cyng Richard Wallace, a Cyng Fran Murphy weithredu ar y mater. Cynigodd y Dirprwy Faer, Cyng Hugh Towns wneud copïau o'r ddogfen a'i dosbarthu iddynt.

6516/Mai/05 Diwrnod Gwirfoddolwyr, 1 Mehefin
Bydd Cyng Ros Bellamy yn ceisio mynychu'r digwyddiad hwn, a gynhleir yn Nhŷ Drenewydd rhwng 10.30am a 3.00pm.

6517/Mai/05 Cronfa Hynodrwydd Cymunedol
Mae Milltir Sgwâr yn gobeithio cefnogi chwe cynllun addas yn Sir Gaerfyrddin, lle gellir derbyn 100% o nawdd hyd at £5,000. Awgrymodd y Cynghorwyr y dylai'r manylion gael eu trosglwyddo i Ken Day.

6518/Mai/05 Ymddiswyddiad Cyng David Jones
Derbyniodd y Cyngor ymddiswyddiad Cyng David Jones, a nododd Cyng Ieuan Gwyn y dylid ei dderbyn ac anfon llythyr ato i fynegi diolch y Cyngor am y nifer o flynyddoedd o wasanaeth a rhoddodd. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Cyngor Sir.

6519/Mai/05 Gohebiaeth:
Gohebiaeth eraill a dderbyniwyd:

Gwybodaeth Ombwdsmen
Model côd ymddygiad
Gwybodaeth Bwrdd Iechyd Lleol ar Ddeintyddion yn Sir Gaerfyrddin
Prifysgol Caerloyw a Chymdeithas Clerciaid Cyngor yn gofyn am enghreifftiau o arfer da mewn Cynghorau
Gwybodaeth am y bwriad o geisio am Ynadon Trwyddedu, Farmers Arms
Gwybodaeth Cartref Gofal Sir Gaerfyrddin ar gyfer Pobl Hŷn
Cydnabyddiaeth wrth y Cyngor Sir am y cais am 12 copi o'r Cynllun Datblygu Unedol i Gynghorwyr
Llythyr Rhodri Glyn Thomas yn lledaenu gwybodaeth nad oes unrhyw benderfyniad terfynol wedi ei wneud ygnlyn â chynllun heol A483 Llandeilo

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk